

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Hydref 2025	
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Tim Christensen, Yr Amgylchedd a Hinsawdd Rheolwr Newidiadau	
Pwnc	Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Ceisio cymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (2022–2025) statudol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (2025–2028) cysylltiedig yn ffurfiol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu'r amgylchedd yng Nghymru yn newid yn sylfaenol. Mae Bil newydd yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn mynd y tu hwnt i'r ddyletswydd bresennol i "[g]ynnal a gwella" bioamrywiaeth gan greu amcan penodol i "atal a gwrthdroi" ei ddirywiad. Mae'r newid hwn yn dyrchafu bioamrywiaeth o fod yn ymarferiad cydymffurfio i fod yn ystyriaeth strategol graidd i'r Gwasanaeth.
- 3 Mae'r adolygiad o'r cyfnod 2022–2025 yn dangos cymhwysedd y Gwasanaeth wrth gwrdd â'r her hon. Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys treialu tanwydd Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) cynaliadwy a dileu'n raddol y defnydd o ewynnau diffodd tân "cemegion am byth" hirbarhaus i ddiogelu ansawdd dŵr.
- 4 Mae Cynllun Gweithredu arfaethedig 2025–2028 yn newid sylweddol mewn uchelgais, gan symud o gydymffurfiaeth i arweinyddiaeth ragweithiol ym maes adfer natur. Mae mentrau blaenllaw yn cynnwys rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd" i drosi o leiaf 15% o'r glaswelltir addas wedi'i dorri yn ddolydd blodau gwyllt, polisi cadarn i ddisodli coed 2-am-1, a mabwysiadu'r egwyddor Enillion Net Bioamrywiaeth (BNG) ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 5 Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Panel Gweithredol ar 15 Medi 2025, ac fe'i cymeradwywyd i'w gyhoeddi dros dro ar wefan y Gwasanaeth hyd nes y bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ei ystyried.

ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

- i) **Cymeradwyo'r Adroddiad a'r Cynllun Bioamrywiaeth drafft; a**
- ii) **Chymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad a'r Cynllun ar wefan y Gwasanaeth.**

CEFNDIR

7 Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i "[g]ynnal a gwella bioamrywiaeth" a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda'r cynllun hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod cenedlaethol "Cymru Gydnerth". Mae'r dirwedd ddeddfwriaethol yn dwysáu yn dilyn datganiad argyfwng natur y Senedd. Bydd y Bil Amgylchedd newydd (Mehefin 2025) yn creu amcan cyfreithiol i "atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth", gan godi'r safon ar gyfer cydymffurfio. Nod y cynllun hwn yw mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r safon uwch hon.

GWYBODAETH

8 Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol trwy ymgorffori bioamrywiaeth yn ei Strategaeth Amgylcheddol gyffredinol ar gyfer 2023–2030. Mae'r dull hwn wedi arwain at gyflawniadau nodedig:

- **Integreiddio Strategol:** Mae cyd-fanteision bioamrywiaeth bellach yn cael eu cyflawni trwy gynlluniau datgarboneiddio craidd ar gyfer pŵer, gwres a'r fflyd, gan arddangos dull gweithredu aeddfed a chyfannol.
- **Atal Llygredd:** Mae'r broses o ddileu'r defnydd o ewynnau fflworoarwynebyddion sy'n hirbarhaus yn amgylcheddol wedi cychwyn, ac mae tanwydd HVO cynaliadwy, heb olew palmwydd, yn cael ei dreialu i osgoi cyfrannu at ddatgoedwigo.
- **Gwella Cynefinoedd:** Mae cynefinoedd sy'n gyfeillgar i beillwyr wedi'u creu mewn wyth gorsaf dân trwy gontract cynnal a chadw tiroedd diwygiedig, ac mae blychau nythu i wenoliaid duon wedi'u gosod mewn dwy orsaf mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.
- **Rheoli ar sail Tystiolaeth:** Mae Rhestr gynhwysfawr o Goed ar draws pob un o'r 47 safle wedi'i chwblhau, ochr yn ochr ag asesiad risg ar gyfer Clefyd Coed Ynn, gan alluogi datblygu cynllun rheoli rhagweithiol wedi'i dargedu.

9 Mae'r cynllun gweithredu newydd yn symud y tu hwnt i waith sylfaenol tuag at gyflawni adferiad natur uchelgeisiol, mesuradwy. Mae'r ymrwymiadau allweddol yn cynnwys:

- **Creu Cynefinoedd:** Bydd rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd" yn trosi o leiaf 15% o laswelltir addas wedi'i dorri yn ddolydd blodau gwyllt neu'n dir ar gyfer plannu coed brodorol erbyn mis Mawrth 2028.
- **Diogelu Rhywogaethau a Chynefinoedd:** Bydd cynllun rheoli Clefyd Coed Ynn yn cael ei weithredu, gan ddisodli pob coeden y ceir gwared â hi â dwy goeden frodorol newydd. Bydd egwyddor ffurfiol "Enillion Net Bioamrywiaeth" yn cael ei mabwysiadu ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd o fis Ebrill 2026, gan sicrhau bod datblygiadau'n gadael byd natur mewn cyflwr gwell.
- **Ymgorffori Diwylliant:** Bydd modiwl e-ddysgu amgylcheddol gorfodol ar gyfer uwch staff yn cael ei lansio, ochr yn ochr â rhwydwaith "Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth" dan arweiniad y staff.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r cynllun yn mynd ati mewn ffordd uniongyrchol i gefnogi nod cenedlaethol "Cymru Gydnerth" drwy gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach, gweithredol. Mae'n ymgorffori'r pum ffordd o weithio (tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio, cynnwys) a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Cyllideb	Cost y gwelliannau bioamrywiaeth arfaethedig i ystâd y Gwasanaeth yw £10,000 dros dair blynedd. Bydd mabwysiadu Enillion Net Bioamrywiaeth ar gyfer prosiectau cyfalaf yn y dyfodol yn cael ei integreiddio mewn gwaith cynllunio a chostio prosiectau o'r cychwyn cyntaf, a bydd yn ddull effeithlon, ataliol o reoli effaith amgylcheddol yn hytrach na chost ôl-weithredol
Cyfreithiol	Rhaid cael cymeradwyaeth yn gyfreithiol er mwyn cyflawni dyletswydd statudol y Gwasanaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae agwedd ragweithiol y cynllun yn sicrhau bod y Gwasanaeth wedi'i baratoi'n dda ar gyfer gofynion uwch y Bil Amgylchedd sydd i ddod, gan liniaru'r risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol a chraffu gan Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol newydd Cymru (OEGW).
Staffio	Dim
Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg	Dim
Risgiau	• Peidio â chydymffurfio â'r gyfraith • Mae'r cynllun yn mynd ati'n weithredol i reoli risgiau ffisegol ac ariannol. Mae'r cynllun Clefyd Coed Ynn yn lliniaru'r risg iechyd a diogelwch o goed yn cwmpo ar eiddo'r Gwasanaeth. Yn yr un modd, mae dileu'r defnydd o ewynnau "cemegion am byth" yn raddol yn atal halogiad tir yn y dyfodol, gan osgoi'r posibilrwydd o gostau a rhwymedigaethau adfer sylweddol.